
# Templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ystyriwch y siart llif isod cyn dechrau'ch asesiad. Rhaid i bob corff cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i'r Nodweddion Gwarchodedig a nodir o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010.




| | |
|---|---|
| Enw'r polisi, gweithdrefn neu faes busnes: | Cynllun Heddlu a Throseddu 2025 - 2029 |
| Enw'r person sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb: | Cheryl Gayther |
| Rôl y person sy'n cynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb: | Cynghorydd Polisi<br>Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) |

## 1. Diben

| | |
|---|---|
| 1.1 Beth yw dibenion y polisi, gweithdrefn neu weithgaredd, a sut maen nhw'n cyd-fynd ag amcanion ehangach y sefydliad? | Un o brif gyfrifoldebau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl ymgymryd â'r swydd ac o fewn y flwyddyn ariannol y mae'n cael ei ethol.<br>Mae cynllun CHTh yn cael ei hysbysu gan brif gyfleoedd, risgiau a heriau Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid allweddol ac yn eu hadlewyrchu. Bydd yn cyfeirio Cynllun Cyflenwi'r Heddlu a'r adnoddau yn ogystal â darparu'r sail dros fonitro perfformiad yr heddlu.<br>Bydd y cynllun yn nodi blaenoriaethau CHTh ac yn rhoi manylion am y mesurau amrywiol ar gyfer cyflenwi ac asesu'r blaenoriaethau hynny. |

| | |
|---|---|
| | Wrth ffurfio'r Cynllun hwn, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda phreswylwyr ardal Dyfed-Powys i ddeall eu barn. Mae hyn yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei lunio gan y cyhoedd a rhanddeiliaid lleol. |
| 1.2 Beth yw ysgogwyr neu'r grymoedd sy'n gyrru datblygu'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd? | Yn unol ag adran 5(1) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu nodi'r amcanion heddlu a throseddu ar gyfer eu hardal drwy Gynllun Heddlu a Throseddu. |

## 2. Asesiad

Er mwyn asesu effaith y polisi, gweithdrefn neu weithgarwch, neu'r effaith bosibl ar berson, mae'n bwysig edrych ar yr holl ddata a gwybodaeth sydd ar gael ichi. Efallai y bydd angen cael gwybodaeth bellach drwy ymgynghori, a dylid cynnwys hyn hefyd.

Rydych chi'n edrych am ragfarn sy'n medru digwydd pan mae gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau o bobl yn y ffordd y mae'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd yn effeithio arnynt, mewn perthynas â Nodweddion Gwarchodedig (oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred).

Wrth gynnal yr asesiad hwn, awgrymir eich bod chi'n ystyried:

- **Data mewn perthynas â'r data amrywiaeth personol** sy'n berthnasol i'r polisi. Er enghraifft, os yw'r polisi'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau, efallai bydd angen ichi edrych ar ddata'r cyfrifiad, ac unrhyw ddata amrywiaeth personol sydd gennym mewn perthynas â phobl yn cael mynediad at y gwasanaethau hynny.
- **Data cwynion** – gall nodi materion sydd angen sylw drwy'r asesiad effaith cydraddoldeb e.e. bydd angen ymdrin â chwynion mewn perthynas â hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn y ddalfa drwy'r asesiad effaith cydraddoldeb wrth adolygu'r ddogfen weithdrefn ar gyfer dalfeydd.
- **Unrhyw ymchwil sydd ar gael mewn perthynas ag anghydraddoldeb o gwmpas y mater polisi** – gall hyn gynnwys adroddiadau AHEF, adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ati. Er enghraifft, mae sawl adroddiad sy'n nodi'r anghydraddoldeb o gwmpas stopio a chwilio, ac amrywiaeth swyddogion heddlu y gellir ystyried wrth ddrafftio asesiadau effaith cydraddoldeb perthnasol.
- **Ymgynghori â grwpiau amrywiol, gan gynnwys ein hyrwyddwyr amrywiaeth, aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a rhwydweithiau cefnogi staff** – byddai hyn yn cynnig her allanol i'r asesiad effaith cydraddoldeb ac yn sicrhau bod barn ein cymunedau amrywiol yn cael eu hystyried.
- **Unrhyw ddata arolygon sy'n bodoli mewn perthynas â'r mater hwn.**
- **Unrhyw unigolion/grwpiau eraill rydych chi'n credu y gallent eich cynorthwyo** – gyda chysylltiad uniongyrchol â'r mater.

Ceir detholiad o ddata a allai fod yn ddefnyddiol ichi ar y dudalen fewnrwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Os oes angen cyngor arnoch chi mewn perthynas â'r data/gwybodaeth y mae angen ichi ystyried wrth gwblhau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, peidiwch ag oedi i gysylltu â'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy *Teams*.

| Rhestrwch yr holl ddata/ymgynghori/ymchwil rydych chi wedi ystyried wrth gyflawni'r asesiad hwn: |
|---|
| Cynhaliwyd ymchwil ac ymgynghoriadau manwl wrth arwain at argymell y blaenoriaethau, gan gynnwys:<br>• Ystyriaeth o ddogfennau plismona cenedlaethol: |

- Gofyniad Plismona Strategol
- Gweledigaeth Plismona 2030
- Mesurau Trosedd a Phlismona Cenedlaethol
- Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (AHGTAEF)
- Canllawiau Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- Canllawiau Cymdeithas Prif Weithredwyr Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Cod Moeseg y Coleg Plismona
- Amgylchedd Weithredu'r Dyfodol 2040 Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
- Siarter Tystion
- Cynllun Cyfiawnder ar y Cyd Cam-drin Domestig
- Fframwaith Cenedlaethol diwygiedig Trais yn Erbyn Menywod a Merched diwygiedig Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu
- Canllaw Cysgu ar y Stryd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- Adolygiad o Gynhyrchiant Plismona
- Canllawiau Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar y Gofal Iawn, Person Iawn
- Deddfwriaethau perthnasol:
  - Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
  - Gorchymyn Protocol Plismona 2023
  - Bil Dioddefwyr a Charcharorion (Cod Dioddefwyr)
  - Deddf Cydraddoldeb 2010
  - Dyletswydd Amddiffyn
  - Deddf Diogelwch Ar-lein

- Ystyriaeth o ddogfennau Cymreig cenedlaethol allweddol:
  - Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol
  - Amcanion Plismona yng Nghymru
  - Strategaeth Troseddau Gwledig Cymru
  - Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma
  - Cynllun Gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
  - Cynllun Strategol y Comisiynydd Dioddefwyr
  - Cynllun Strategol Comisiynydd Plant Cymru
  - Deddfwriaeth berthnasol lle nad yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n cael eu henwi fel "cyrff perthnasol" am eu bod nhw'n cael eu llywodraethu gan San Steffan, ond er budd cydweithio ac aliniad â phartneriaethau statudol, peth doeth fyddai i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru ystyried:
    - Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
    - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Gwerthusiad o ddogfennau allweddol Heddlu Dyfed-Powys:
  - Strategaeth Reoli 2024-25
  - Cynllun cyflenwi a fframwaith perfformiad y Prif Gwnstabl
  - Asesiad Strategol
  - Canfyddiadau archwiliadau ac arolygiadau
  - Adroddiadau perfformiad
  - Datganiad Rheoli'r Heddlu
  - Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Adolygiad o flaenoriaethau partneriaid o dan y ddyletswydd gyfatebol:
  - Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus
  - Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
  - Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC)
  - Bwrdd Addysgu Iechyd Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda

|  |
|---|
| ○ Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru<br>○ Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid<br>○ Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys<br>• Ymgynghori â:<br>○ Preswylwyr a busnesau yn ardal Dyfed-Powys<br>○ Detholiad o reolwyr canol a rheolwyr uwch HDP drwy weithdy<br>○ Grwpiau lleiafrifol na chlywir ganddynt yn aml drwy sesiynau wedi'u hwyluso<br>○ Partneriaid a rhanddeiliaid allweddol drwy grwpiau ffocws<br>○ Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys<br>○ Y cyhoedd ehangach drwy arolygon ar-lein a phapur a hyrwyddwyd drwy gyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol<br>○ Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a roddodd gyngor inni ar fersiynau hygyrch amgen o'r Cynllun Heddlu a Throseddu cyhoeddedig.<br>Yn ogystal â dadansoddiad o adroddiadau adolygu / melin drafod perthnasol ac ystyriaeth o arferion mewn mannau eraill. |

**Rhowch fanylion am ganlyniad eich asesiad yn y graff isod:**

Mae angen ichi nodi unrhyw ganfyddiadau yma. A yw'ch ymchwil wedi nodi unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar grwpiau penodol? Ydyn ni wedi derbyn cwynion gan grwpiau o bobl benodol mewn perthynas â'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd? A yw aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi mynegi unrhyw bryderon? Nodwch unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn y graff isod.

| **A allai'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd gael effaith anghymesur negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?** | |
|---|---|
| 2.1 **Oed** (plant, pobl ifainc (17-25), pobl neu grwpiau hŷn, e.e, dros 55 oed) | Na.<br><br>Mae blaenoriaeth 1 yn canolbwyntio ar gefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth o bob grŵp oed, gyda dyletswydd statudol i ddiogelu plant a phobl ifainc a hyrwyddo eu lles. Mae partneriaid diogelu a gwasanaethau cymorth yn darparu cymorth gofal cofleidiol system gyfan i bobl sy'n agored i niwed, yn arbennig dioddefwyr camfanteisio rhywiol, cam-drin ac aflonyddu rhywiol sy'n blant.<br><br>Mae blaenoriaeth 2 yn canolbwyntio ar gefnogi cymunedau diogel drwy atal niwed, ac yn arbennig, mae'n cefnogi gwasanaethau cyfiawnder troseddol a phlismona er mwyn cyflwyno ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n canolbwyntio ar ddargyfeirio ac atal, mewn lleoliadau addysg a'r gymuned.<br><br>Mae blaenoriaeth 3 yn cynnwys hyrwyddo a diogelu hawliau plant, gan roi'r grym iddynt gymryd rheolaeth o'u bywydau a'u dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cynllun yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth heddlu a system gyfiawnder sy'n sicrhau bod pobl yn:<br><br>Cael eu diogelu – rydyn ni'n diogelu pobl rhag trosedd ac yn ceisio cyfiawnder i ddioddefwyr.<br><br>Cael eu parchu – ystyrir ein bod ni'n deg, parchus a diduedd ym mhopeth yr ydym yn ei wneud a'i ddweud.<br><br>Cael eu cynnwys – rydyn ni'n cefnogi pobl o bob cefndir i gyfrannu at y ffordd yr ydym yn gweithio.<br><br>Cael eu cynrychioli – rydyn ni'n cynrychioli'r cyhoedd yr ydym yn ei wasanaethu, yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn annog hyder yn ein swyddogion, staff a gwirfoddolwyr. |
| 2.2 **Anabledd** (gweladwy neu anweladwy, corfforol, gwybyddol, amhariad clyw/golwg, materion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu) | Na.<br>Mae'r Cynllun yn ymrwymo i gefnogi'r Prif Gwnstabl i sefydlu diwylliant proffesiynol a moesegol cryf sy'n galluogi ac yn croesawu cynhwysiant, ac yn herio ymddygiad amhriodol nad yw'n gynhwysol pan mae'n digwydd.<br><br>Wrth ysgrifennu'r cynllun hwn, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori wedi'u hwyluso gyda grwpiau na chlywir ganddynt yn aml, gan gynnwys grŵp Rhannol Ddall a chlwb Byddar. Cynhwyswyd eu hanghenion a'u barn yn y cynllun. Bydd y Cynllun yn cael ei gynhyrchu mewn fformat hawdd ei ddarllen ac Iaith Arwyddion Prydain er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gymorth iechyd meddwl:<br><br>Byddwn ni'n gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid er mwyn goruchwylio'r ymagwedd Gofal Cywir, Person Cywir, gan sicrhau bod y person cywir, â'r sgiliau, hyfforddiant a phrofiad cywir, yn ymateb i bobl o bob oed sydd ag anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol, er mwyn bodloni eu hanghenion orau.<br><br>Mewn perthynas â chyhoeddi'r Cynllun Heddlu a Throseddu, byddwn ni'n creu fersiynau hygyrch ychwanegol yn arbennig ar gyfer unigolion sydd ag anableddau dysgu (fersiwn hawdd ei ddarllen), yn ogystal â nam golwg a chlyw (fersiwn Braille a fersiwn Iaith Arwyddion Prydain o'r fersiwn Hawdd Ei Ddarllen). |

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| | |
|---|---|
| 2.3 **Ailbennu Rhywedd** (Unigolion, yn aelodau staff ac yn aelodau o'r cyhoedd, sy'n trawsnewid neu sydd wedi trawsnewid o'u rhyw fiolegol adeg eu geni, anneuaidd neu ryweddhylifol) | Na.<br>Mae'r Cynllun yn hyrwyddo ymagwedd gwrth-hiliol sy'n ymateb i'r rhywiau a hysbysir gan drawma a arweinir gan seicoleg sy'n adnabod bregusrwydd plant, pobl ifainc ac oedolion, sy'n gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.<br><br>Mae'r Cynllun wedi'i angori mewn egwyddorion craidd sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd ac yn arwain y camau y byddwn yn eu cymryd. Un o'r egwyddorion hyn yw ymagwedd wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion penodol gwahanol rywiau a'r heriau a wynebir ganddynt, sy'n sicrhau mynediad cyfartal i'n gwasanaethau. |
| 2.4 **Priodas a Phartneriaeth Sifil** (gwahaniaethu ar sail cyflogaeth) | Na.<br>Nid yw statws priodasol yn effeithio ar gynhwysiant. Bydd y Cynllun yn ymgymryd â gwaith i ddeall gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu a mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu er mwyn helpu i feithrin ffydd a hyder. |
| 2.5 **Beichiogrwydd a Mamolaeth** (cyfnod y beichiogrwydd a'r amser mae rhywun yn absennol o'r gwaith cyn ac ar ôl yr enedigaeth, gan gynnwys mabwysiadu maethu a cholli baban) | Na.<br>Nid yw beichiogrwydd a mamolaeth yn effeithio ar gynhwysiant. Mae proffiliau cartrefi a phoblogaeth ledled Dyfed-Powys wedi'u hystyried wrth sefydlu blaenoriaethau. Bydd y Cynllun yn ymgymryd â gwaith i ddeall anghydraddoldebau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu er mwyn helpu i feithrin hyder a ffydd. |
| 2.6 **Hil** (pobl a ddiffinnir gan eu lliw a'u cenedl, gan gynnwys dinasyddiaeth, neu wreiddiau cenedlaethol neu ethnig) | Na.<br>Nid yw hil yn effeithio ar gynhwysiant.<br>Bydd y Cynllun yn meithrin diwylliant cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei gynrychioli ac mae cydraddoldeb yn egwyddor sylfaenol, drwy gefnogi cyflenwi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd Heddlu Dyfed-Powys a'r swyddfa.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn sefydlu ein hymrwymiad i gyfrannu gwaith tuag at nod Llywodraeth Cymru o Gymru Gwrth-hiliol.<br><br>Mewn perthynas â chyhoeddi'r Cynllun Heddlu a Throseddu, byddwn ni'n cynhyrchu'r cynllun mewn ieithoedd eraill ar gais, ac yn ychwanegu brawddeg i'r cynllun i nodi bod 'dogfen Word o'r cynllun hefyd ar gael mewn 'ieithoedd cymunedol' eraill ar gais.' |

| | |
|---|---|
| 2.7 **Crefydd neu Gred** (unrhyw grefydd, gan gynnwys dim crefydd, unrhyw gred – gan gynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, a dim credoau) | Na.<br>Nid yw crefydd neu gred yn effeithio ar gynhwysiant. Bydd y Cynllun yn cefnogi'r Prif Gwnstabl i sefydlu diwylliant moesegol a phroffesiynol cryf sy'n galluogi ac yn croesawu cynhwysiant, ac yn herio ymddygiad amhriodol nad yw'n gynhwysol pan mae'n digwydd. |
| 2.8 **Rhyw** (Ystyriwch Gwrywaidd, Benywaidd, Rhyngryw - rhyw fiolegol a bennwyd adeg geni) | Na.<br>Nid yw rhyw yn effeithio ar gynhwysiant.<br>Bydd y Cynllun yn ymgymryd â gwaith i ddeall anghydraddoldebau yn hyder y cyhoedd yn yr heddlu ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu er mwyn helpu i feithrin hyder a ffydd. |
| 2.9 **Cyfeiriadedd Rhywiol** (atyniad rhamantaidd neu rywiol person i bobl eraill, neu ddiffyg atyniad) | Na.<br>Nid yw cyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar gynhwysiant. Bydd y Cynllun yn ymgymryd â gwaith i ddeall anghydraddoldebau yn hyder y cyhoedd yn yr heddlu ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu i helpu i feithrin ffydd a hyder. |

Dywed y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol bod yn rhaid i: "Awdurdod y mae'r adran hon yn berthnasol iddo, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynglŷn â sut i arfer ei swyddogaethau, roi ystyriaeth ddyledus i ddymunoldeb eu harfer mewn ffordd a luniwyd i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol."

| | |
|---|---|
| 2.10 **Cyflog** (cyflog is/uwch o fewn cymunedau, statws cyflogaeth, bod ar fudd-daliadau, methu gweithio) | Na.<br>Nid yw cyflog yn effeithio ar gynhwysiant.<br>Bydd y Cynllun yn ymgymryd â gwaith i ddeall anghydraddoldebau yn hyder y cyhoedd yn yr heddlu ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu i helpu i feithrin ffydd a hyder. |
| 2.11 **Addysg** (dim addysg, cyflawniad addysgol isel, cyflawniad addysgol uchel) | Na.<br>Nid yw addysg yn effeithio ar gynhwysiant.<br>Bydd y Cynllun yn ymgymryd â gwaith i ddeall anghydraddoldebau yn hyder y cyhoedd yn yr heddlu ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu i helpu i feithrin ffydd a hyder. |

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae angen ystyried y canlynol mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg hefyd:

| | |
|---|---|
| 2.12 Dangoswch sut yr ydych chi wedi ystyried y ffordd y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar – | Bydd y Cynllun yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi'n ddwyieithog.<br><br>Mae proffil y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ar draws ardal Dyfed-Powys wedi'i ystyried wrth sefydlu'r cynllun. Cynhaliwyd gweithgarwch ymgynghori'n ddwyieithog er |

| | |
|---|---|
| (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae'r Cynllun yn rhoi ystyriaeth ddyledus i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o ran sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Bydd y Comisiynydd hefyd yn cefnogi'r Prif Gwnstabl i fuddsoddi mewn cynyddu gallu Heddlu Dyfed-Powys i gyflenwi gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Bydd y Cynllun ar gael mewn fformat Hawdd Ei Ddarllen ac Iaith Arwyddion Prydain er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. |
| 2.13 Dangoswch sut yr ydych chi wedi ystyried y ffordd **NA** fyddai gan y penderfyniad polisi effeithiau andwyol, neu sut y byddai ganddo lai o effeithiau andwyol, ar –<br>(a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a<br>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel uchod. |

**3. Cynllun gweithredu ar gyfer lleihau effaith a nodwyd**

Pan mae effaith negyddol neu anghymesur wedi'i nodi, yna mae angen inni gymryd camau i leihau'r effaith hwn, neu gael gwared arno, drwy wneud newidiadau perthnasol i'r polisi, gweithdrefn neu weithgaredd.

Pan ystyrir bod y polisi, gweithdrefn neu weithgarwch sy'n achosi'r effaith yn gyfiawnadwy, yna mae'n rhaid esbonio'r rhesymau dros y casgliad hwn yn glir.

| | |
|---|---|
| **Effaith a nodwyd:** | Amh. |

Heddlu Police DYFED-POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu arfaethedig:**<br><br>D.S. Pan ystyrir bod yr effaith yn gyfiawnadwy, dylid nodi'r rhesymau dros hyn yn glir. | Amh. |
| **Dyddiad cwblhau:** | 31/10/24 |
| **Dyddiad adolygu:** | |
| **Cymeradwywyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb gan:** |  |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 12.11.2024 |

** copïwch a gludwch y tabl uchod gynifer o weithiau ag y bo angen, gan ddibynnu ar nifer yr 'effeithiau' a nodwyd)

**Cyflwynwch eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb gorffenedig gyda'ch polisi drafft i'r Swyddog Polisi i'w adolygu. Mae polisïau'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth terfynol drwy strwythur Lywodraethu'r heddlu ar gyfer eich maes busnes cyn cyhoeddi.**